

# E-GYFLWYNO

Ymholiadau am gyflwyniadau sy'n methu

Wrth i fwy a mwy ddefnyddio e-gyflwyno, mae'r Tîm E-ddysgu wedi ymdrin â nifer cynyddol o geisiadau gan fyfyrwyr yn gofyn am wybodaeth am gyflwyniadau sy'n methu. Hoffai'r Tîm E-ddysgu ddatblygu gweithdrefn i drafod yr ymholiadau hyn er mwyn sicrhau bod pob cais yn cael ei drin yn yr un modd.

Mae'r rhan fwyaf o achosion o e-gyflwyniadau sy'n methu yn ymwneud â gwallau sy'n digwydd adeg cyflwyno. Yn yr achosion hyn byddai'r myfyriwr yn derbyn neges yn eu rhybuddio na fu'r cyflwyno yn llwyddiannus. Nid oes gennym yr un achos wedi ei adrodd o fyfyrwyr yn derbyn neges fod y cyflwyno wedi llwyddo a chael problemau wedi hynny.

Cynigiwn y gweithdrefnau a ganlyn ar gyfer pob apêl sy'n gysylltiedig ag e-gyflwyniadau sy'n methu:

- Rhaid i'r adran / Athrofa berthnasol anfon pob cais am wybodaeth am gyflwyniadau electronig sy'n methu at [eddysgu@aber.ac.uk](mailto:eddysgu@aber.ac.uk). Bydd myfyrwyr sy'n anfon ceisiadau'n uniongyrchol i'r tîm yn cael eu cyfeirio'n ôl i'w tiwtor neu'r aelod o staff gweinyddol yn yr adran sy'n gyfrifol am eu hastudiaethau.
- Dylid cynnwys y wybodaeth ganlynol ym mhob cais. Bydd pob cais na fydd yn cynnwys y wybodaeth hon yn cael ei ddychwelyd gan holi amdani. Noder y gall hynny beri oedi wrth brosesu'r cais:
  - Cod ac enw'r modiwl/au perthnasol
  - Amser a dyddiad y ceisiadau cyflwyno
- Bydd angen o leiaf dri (3) diwrnod gwaith llawn ar y Gwasanaethau Gwybodaeth i brosesu ceisiadau. Mae'r Gwasanaethau Gwybodaeth yn cadw'r ffeiliau cofnodi perthnasol mewn cyflwr hawdd cael gafael arno am (1) mis – dylai pob cais felly gael ei wneud o fewn mis i'r cyflwyno.
- Bydd gwybodaeth am fynediad i'r cyflwyno ac unrhyw wallau yn cael ei hanfon yn ôl i'r adran. Bydd y wybodaeth hon yn cynnwys cadarnhau a wnaeth y myfyriwr geisio mynediad i'r adroddiadau am y cyflwyno a'r gwallau.
- Ni all y Gwasanaethau Gwybodaeth warantu y bydd canlyniadau ymchwiliad o'r fath yn ymdrin â'r holl broblemau gan nad yw pob gwall yn cael ei chofnodi gan y system. Rydym yn argymhell bod y dystiolaeth yn cael ei defnyddio ynghyd â gwybodaeth arall sydd gan yr adran am y myfyriwr.

**Mae'r Rheolwr Gwarchod Data yn atgoffa adrannau fod gan fyfyrwyr hawl fel arfer i weld cofnodion mynediad a'i bod hi'n ddisgwyliedig felly y byddai pob cais o'r fath yn cael ei**

***anfon i'r Gwasanaethau Gwybodaeth. Paratowyd y ddogfen hon drwy ymgynghori â'r Rheolwr Gwarchod Data a gellir anfon pob ymholiad ynghylch yr agwedd hon ar y weithdrefn at [infocompliance@aber.ac.uk](mailto:infocompliance@aber.ac.uk)***

## CYNGOR I STAFF

Cynghorir staff i ddilyn y camau canlynol i leihau problemau myfyrwyr:

- a. Trefnu cyflwyniad ymarfer i bob myfyriwr, gan gadarnhau bod y ffeiliau wedi eu cyflwyno'n llwyddiannus.
- b. Gwirio'r cyflwyniadau o fewn (1) diwrnod i'r dyddiad cau. Bydd hyn yn cadarnhau bod unrhyw fyfyrwr sydd heb gyflwyno yn cael eu hadnabod cyn gynted â phosibl, ac y gellir cymryd y camau dilynol yn gyflym. Gall y Tîm E-ddysgu gynghori staff ynghylch dulliau adnabod myfyrwyr sydd heb gyflwyno, gan gynnwys defnyddio Rhybudd Brys / Canolfan Gadw Blackboard.

## CYNGOR I FYFYRWYR

Cynghorir myfyrwyr i gymryd pob cam sydd ei angen ymlaen llaw i osgoi gwneud ceisiadau:

- a. Rhoi cynnig ar y cyflwyno mewn da bryd cyn y dyddiad cau er mwyn gallu ymdrin ag unrhyw broblemau cyn dyddiad cau'r cyflwyniad.
- b. Rhoi cynnig ar gyflwyniadau ymarfer sydd ar gael gan ddefnyddio'r cyfrifiadur y bwriedir ei ddefnyddio wrth gyflwyno'r fersiwn yn y pen draw. Os nad oes modd defnyddio cyfrifiaduron personol i gyflwyno, dylid defnyddio cyfrifiaduron y brifysgol sydd ar gael mewn sawl lleoliad ar draws y Brifysgol
- c. Cadarnhau bod y gwaith wedi ei gyflwyno'n llwyddiannus yn syth ar ôl cyflwyno. Ceir cynghor ynghylch sut i wirio cyflwyniadau drwy AberLearn Blackboard yn ogystal ag ar wefan Cwestiynau a Holir yn Aml y Gwasanaethau Gwybodaeth.
- d. Hysbysu'r adran a'r Tîm E-ddysgu ([eddysgu@aber.ac.uk](mailto:eddysgu@aber.ac.uk)) ynghylch unrhyw broblemau cyn gynted â phosibl.
- e. Cadw copiâu o bob e-bost a anfonir gan y system sy'n cadarnhau cyflwyno, yn ogystal â chipluniau o negeseuon am wallau.

Mae'r wybodaeth hon ar gael i staff a myfyrwyr drwy Blackboard a safle Cwestiynau a Holir yn Aml y Gwasanaethau Gwybodaeth. Cynghorir adrannau hefyd i gynnwys y manylion yn eu llawlyfrau i fyfyrwyr yn ogystal ag wrth drafod e-gyflwyno.